Awst / Medi 2022 Rhifyn 309



# Gair y Gweinidog

Mae gen i atgof o fod ym mhentref Ysbyty Ifan a hynny ar noson lawog a diflas. Anodd fyddai dychmygu y byddwn yn ymwelydd cyson yn nechrau'r nawdegau, gan i'm cyfaill y Parch Iorwerth Jones dderbyn galwad i'r ardal, ond y noson honno 'roeddwn yno i bwrpas. Eisteddfod Clybiau Ffermwyr Ifanc Eryri a gan fy mod yn aelod o Gôr Ieuenctid Godre'r Eifl, rhaid oedd cystadlu. Côr, Wythawd, Pedwarawd a'r cyfan dan arweiniad medrus y diweddar annwyl Griffith Davies, Treddafydd, Llithfaen. Ei gwestiwn wastad oedd "Pwy sydd am drio ar yr unawd?", ond wnes i 'rioed drio, roedd y syniad o fod ar fy mhen fy hun o flaen cynulleidfa yn hunllef. Gwir, fe fues yn canu'r piano fwy nag unwaith yn eisteddfod yr Ysgolion Sul ond allai ddim dweud fy mod wedi mwynhau y profiad, rhyw dipyn o blesio mam yn falm i nerfusrwydd person swil! Nid felly pawb ac mae gen i barch mawr i'r rhai hynny sy'n mwynhau cystadlu a pherfformio ac wrth wneud hynny, rannu talent a diddanu cynulleidfa werthfawrogol.

Ymhen ychydig ddyddiau mi fydd hi'n wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol, uchafbwynt y flwyddyn i lawer un ac yn arbennig y flwyddyn yma. Bu'r disgwyl yn hir a'r holl ymdrechion lleol i godi arian a chroesawu'r Brifwyl wedi gorfod aros am dros ddwy flynedd, ond bellach mae pethau'n argoeli'n dda. Fe fydd yna bobl a brwdfrydedd, anrhydeddau a chystadlu, hyrwyddo a chymdeithasu a'r cyfan yn tanlinellu cyfoeth diwylliant a iaith. Wrth olygu'r rhifyn yma o Perthyn a'r mis diwethaf, 'rwyf wedi ceisio cynnwys gwybodaeth am yr hyn all fod o ddiddordeb yn y cyd-destun crefyddol, canran o'r gweithgaredd eang fydd yn digwydd yn ystod yr wythnos.

I mi fel i lawer un arall, yr hyn sy'n apelio wastad yw'r gymdeithas. Os dwi'n onest, tydw i ddim yn ddyn y Pafiliwn ac felly cystadleuaeth neu gyngerdd, ond dwi'n mwynhau cyfarfod hwn a'r llall, hen gydnabod ac felly cyfle i ddal fyny. Nid yn unig hynny, ond hefyd cyfle i gasglu

gwybodaeth ac i fwrw calon, er wn i ddim os oes yna rhywbeth gwaeth na chriw o glerigwyr yn hel at ei gilydd ac yn rhannu profiadau'r Weinidogaeth! Beth bynnag am hynny, fe fydd yna rhywbeth newydd yn Eisteddfod Ceredigion a hynny yn ffurf gardd, gardd Salm 23. Ymddangosodd yr ardd yn Sioe Flodau Chelsea gan ennill y Wobr Aur am Ardd Seintwar. Fe'i cynlluniwyd gan wraig o'r enw Sarah Eberle ac yn gyfuniad o gerrig a gwyrddni a dŵr, a chyfle trwy eich ffôn i wrando ar eiriau'r Salmydd. Dwi'n edrych ymlaen i weld ac i gynorthwyo ac mewn byd o sŵn, gan gynnwys bwrlwm yr Eisteddfod, pa le gwell i eistedd a gwrando ar guriad ein calonnau.

Fe fydd y brwdfrydedd a'r mwyniant yn heintus, rhywbeth efallai sydd wedi mynd ar goll ym mywyd yr Eglwys yn y Gorllewin, ond fe fydd yr Eglwys yno! Fe fydd yr Oedfa a'r Gymanfa yn rhan o weithgaredd yr wythnos, Pabell Cytun a'i bwrlwm yn arwydd o'r bywyd sy'n dal i fodoli yn y gwahanol enwadau ac felly'r eglwysi lleol, fe fydd yna bynciau Cristnogol yn cael eu trafod a phobl ffydd yn dal yng nghanol bywyd pob dydd. Fe fydd y sylweddoliad yna yn gysur ac yn gynhaliaeth ac yn dod a ni at galon ein dealltwriaeth o fywyd ac o dystiolaeth. Er bod yr Eglwys yn ymddangos fel petae ar ymylon cymdeithas, mae ei phobl yn y canol ac felly'r gwahoddiad i fyw y bywyd yna sydd o Dduw ac i ddangos yr Iesu sy'n gymaint rhan o'n heddiw fel cenedl ac yr oedd o'n gorffennol.

Mwynhewch yr Eisteddfod a'r haf a chadwch yn saff.

Eifion.

## Cofion

Anfonwn ein cofion a’n dymuniadau gorau at Mair Griffiths, Glenys James, Eleri Jones a Dilys Milden a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar ac at y rhai sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi neu mewn cartrefi gofal.
Anfonwn ein dymuniadau gorau a’n cofion hefyd at Mark Strong yn Ysbyty Nedd Port Talbot.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Daniel, Gareth a Catrin Rowbotham sydd wedi colli eu tad-cu, sef Mr.Peter Rowbotham, Penparcau.
Cydymdeimlwn â Jonathan Eurig a’r teulu ar farwolaeth ewythr Jonathan, sef y Parch Haydn Thomas, Caerdydd.

## Dymuno’n dda

Dymunwn yn dda i Celia Jones sydd wedi dathlu ei phenblwydd yn 95 oed yn ddiweddar.  Anfonwn ein cofion at Celia, hefyd at Iola Jones a Lizzie Jones yng Nghartref Tregerddan.
Dymuniadau gorau i Megan Morris sydd wedi dathlu ei phenblwydd yn 90 oed ddiwedd Gorffennaf. Anfonwn ein cofion ati yn ei chartref newydd.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Steffan Rhys Jones ac Osian Mills oedd yn canu gyda chôr Only Boys Aloud yng Nghanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd ddechrau Gorffennaf.

Llongyfarchiadau i'r myfyrwyr sydd wedi derbyn ei gradd eleni. Dymunwn yn dda iddynt wrth barhau â'u hastudiaethau neu wrth iddynt ddechrau ar yrfa newydd.
Dymunwn yn dda i'r plant a'r ieuenctid fydd yn wynebu cyfnod newydd ar ddechrau Medi, yn yr ysgol, mewn coleg neu mewn gwaith.
Llongyfarchiadau i Gwerfyl Pierce Jones ar dderbyn Cymrodoriaeth er anrhydedd gan Brifysgol Aberystwyth

# Newyddion Ebeneser



## Cofion

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at ein aelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser.
Dynunwn yn dda i Megan Morris ar ddathlu ei phenblwydd yn 90 oed ar Orffennaf 28 ain ac anfonwn ein cofion ati.

Anfonwn ein cofion hefyd at Brenda Griffiths yng Nghartref Cysgod y Coed ac at Llinos Hughes yng Nghartref Pennal View, Blaenpennal.

## RHESTR BLODAU

Medi 4 - Mona Bowen a Robin Huw Bowen
Medi 11 – Mair Jones a Carys Davies
Medi 18 – Nia Mair Gruffydd-Williams
Medi 25 – Eleri Davies

Diolch yn fawr i'r rhai sydd wedi rhoi eu henwau ar y rhestr yn y cyntedd.

## MARY JONES

Ym marwolaeth Mrs Mary Jones, collodd y Morfa aelod hynaf yr eglwys. Yn frodor o Nant Peris, ac yn un o bedwar plentyn i'r diweddar Llywelyn ac Ann Humphreys, cafodd fagwrfa draddodiaol ble'r oedd y capel yn ganolog i fywyd teuluol a chymdeithasol. 'Roedd yr aelwyd yn un diwylliedig iawn gyda phwyslais ar lên a cherddoriaeth, eisteddfod a 'Band of Hope' ac arhosodd y cyfan gyda hi trwy gydol ei hoes. Gallai adrodd barddoniaeth ar ei chôf ac 'roedd ei hoffter o lyfrau yn gysur ac yn addysg hyd nes i'r golwg fethu. Er iddi brofi anhwylder pan yn blentyn a cholli blwyddyn a hanner o addysg, wedi gadael ysgol dechreuodd ei hyfforddiant fel nyrs yn Ysbyty Croesoswallt gan symud i'r Amwythig ac yna'r Maelor. Gwelai'r cyfan fel galwedigaeth yn hytrach na gwaith a'r profiad o weld rhywun yn gwella, yn fendith ac yn ysbrydoliaeth.

Rhain oedd blynyddoedd tywyll yr Ail Ryfel byd ond er y tywyllwch ‘roedd yna fesurau o oleuni a dim yn fwy nag yn nyfodiad milwr i’r ardal, un o fechgyn Rhosllannerchrugog, ifanc a golygus, ac mewn oedfa un nos Sul cyfarfu’r ddau. Cyfarfyddiad arweiniodd ar garwriaeth, carwriaeth ddieithr i ddechrau gan i Ernest Jones hwylio i’r India ac ymhen amser darganfod ei hunan wedi ei gaethiwo yn Murma, ond wedi dychwelyd, carwriaeth arweiniodd at briodas am chwe deg wyth o flynyddoedd ac at deulu, gyda dyfodiad Valerie a Tony yn fendith ac yn lawenydd. Gan i Ernest Jones gael ei ddewis yn beldroediwr proffesiynol gyda Nottingham Forest bu’n ddau’n byw yno am ddwy flynedd ond oherwydd cyflwr iechyd Mary bu’n rhaid dychwelyd i Gymru ac i Fangor yn gyntaf gyda Ernest yn parhau i chwarae peldroed ac yna ymhen amser i Aberystwyth. Yn y ddau le, bu eu ffyddlondeb i’r eglwys leol yn esiampl a’u cyfraniad yn eang ac yn amrywiol. Daeth dyddiau ymddeoliad ond nid rhai i segura oedd Ernest a Mary. Daeth cyfle i ofalu am adeilad y Cyngor Llyfrau ac nid yn unig yr adeilad ond y bobl hefyd a’u gofal mewn paned o goffi trwy laeth yn dweud y cyfan am eu hawddgarwch a’u cariad.

Colled fawr oedd colli ei phriod a dwyshawyd y golled honno ym marwolaeth cynamserol Tony ond bu gofal Valerie yn esiampl a ffydd gadarn Mary Jones yn gysur ac yn gynhaliaeth. Byddai ymweld â aelwyd Crud-yr- Awel wastad yn fendith a’r gymdeithas yn un gynnes a gwerthfawrogol.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Valerie, Awel, Ffion, Sioned, John, Rob, Osian a Rhys yn eu profedigaeth o golli mam, mam yng nghyfraith, nain a hen nain.

Bu’r angladd yn Nghapel y Morfa ar y 17eg o Fehefin, 2022 ac yn dilyn yn Amlosgfa Aberystwyth gyda’r Parch Eifion Roberts yn gwasanaethu.

# YR YSGOL SUL

Ar ddiwedd y tymor cawsom hwyl wrth blannu hadau a'u gwylio'n newid ac yn tyfu o wythnos i wythnos.  Yn dilyn y Pentecost  cawsom nifer o storiau am y newid ddaeth i fywydau ffrindiau  Iesu trwy gymorth Yr Ysbryd Glân – Pedr a Ioan ac yna  Saul a ddaeth yn Paul yn dilyn y droedigaeth a'r newid ar y ffordd i Ddamascus .

I orffen y tymor aethom i Fwlch Nant yr Arian i fwynhau gweithgareddau yn yr awyr agored a chael hwyl gyda'n gilydd.

















**Gweithgareddau’r flwyddyn**

Mae amrywiaeth o weithgareddau’r plant a’r ieuenctid yn ystod y flwyddyn wedi eu cofnodi ar y poster a baratowyd ar gyfer Pabell Cytun yn yr Eisteddfod yn Nhregaron. Diolch i Menai a Catherine am y lluniau ac i Gareth Owen am ei waith yn eu gosod.

Gwyliau hapus i bawb. Bydd y tymor newydd yn ail- ddechrau ar Fedi 4ydd ac edrychwn ymlaen at groesawu pawb yn ôl.




## YR ORSEDD

Dau fydd yn cael eu derbyn i'r Orsedd yn Eisteddfod Ceredigion fydd Deian Creunant a Gwenda Sippings. Felly cyfle i ofyn ambell gwestiwn.



**i) Dy berthynas gyda'r Eisteddfod tros y blynyddoedd ac yn dilyn, Eisteddfod Ceredigion**

Mae wythnos yr Eisteddfod wedi bod yn bwysig i mi erioed - o fod yno am wythnos gyda Mam a Dad a Gwenan, yn hambygio pawb ar stondin y Cyngor Llyfrau, i fwynhau yn ormodol ar y maes pebyll - a 'gweithio' yn y gorlan goffi gyntaf yn steddfod Llambed 84. Wrth weithio i amryw sefydliadau rwyf wedi eu hannog i gael presenoldeb yno - yn bennaf er mwyn i fi gael treulio cyfnod ar y maes!

Mae bod ynghlwm ag Eisteddfod Ceredigion wedi bod yn bleser pur o'r cychwyn cyntaf - y brwdfrydedd a'r asbri wedi bod yn wych er y pandemig a phawb wrth eu boddau ei bod bellach ar fin digwydd - go iawn!

**ii) Fydd yr Eisteddfod yma'n wahanol?**

Yn naturiol mae 'na rai ystyriaethau yn sgil Covid er fod y cyfyngiadau bellach wedi eu llacio, ond gobeithio bydd y torfeydd yn heidio yno (a dyna yw'r arolygon) a byddwn eto yn ail gydio yn nathliadau ein prifwyl fel cychwyn newydd. Ac fe fydd yn wahanol wrth gwrs, gan mai hon fydd yr Eisteddfod orau eto!

**iii) Beth fydd yr uchafbwyntiau ti'n meddwl?**

Rwy'n tybio mai perfformiad y cor yn sioe Lloergan fydd yr uchafbwynt heb os!! Dylai cyflwyniad y Dadeni ar y maes fod yn werth ei weld ar y nos Sadwrn gyntaf, ac i deuluoedd bydd sioe Na Nel yn dipyn o sbort - lle mae cymeriad Meleri James yn cael llwyfan yn y brifwyl am y tro cyntaf. Ond rwy'n credu mai'r prif uchafbwynt fydd y cyfle i ni fel cenedl ddod at ein gilydd unwaith eto, i gyfarfod ac i gymdeithasu a ddylen ni ddim tan brisio y profiad hwnnw.

**iv) Sut wyt ti'n teimlo rhan yr anrhydedd fod yn aelod o'r Orsedd?**

Rwy'n ei ystyried yn anrhydedd enfawr ond allai ddim pwysleisio pa mor nerfus fyddai ar y nos Iau - bydd yn braf serch hynny medru rhannu'r profiad gyda nifer o gyfeillion a chyfoedion o Geredigion.

Deian



Rwy wrth fy modd mod i wedi pasio’r arholiadau i gael fy ethol yn aelod o’r Orsedd (Gwisg Werdd) eleni. Er fy mod wedi fy magu yn Lloegr, roedd Mam a Dad yn Eisteddfodwyr brwd, felly roeddem yn mynychu’r Maes bob Haf fel teulu. Saesneg oedd iaith ein haelwyd, ond roedd fy chwaer fach Carys a fi wedi amsugno elfennau o’r iaith Gymraeg trwy ganeuon, ac wrth wrando ar sgyrsiau ein rhieni a’u ffrindiau a’r teulu Cymraeg eu hiaith. Yn wir, roeddem wedi dod i wybod llawer

am hanes a diwylliant Cymru, ac yn teimlo fel Cymry i’r carn yn Lloegr!
Ymunodd Mam â’r Orsedd yn 1972/73. Ar y pryd, roedd un arholiad am wisg werdd, ac un arall am wisg las. Roedd seremonïau’r Orsedd yn gynnar yn y bore, felly roedd yn gyffrous i weld Mam fel rhan o’r cwmni lliwgar yn yr awyrgylch hudol.
Astudiais y Gymraeg am flwyddyn ym Mhrifysgol Aberystwyth yn y saithdegau, a gwnes arholiad Cymraeg Ail Iaith Safon A gan astudio gyda Mam. Ond wedyn roedd fy mywyd wedi troi’n hollol Saesnig , wrth i mi weithio yn Llundain, a phriodi Sais. Ond yn raddol, dechreuodd fy niddordeb yn yr iaith ail danio, trwy wasanaethau dwyieithog Castle Street, a thrwy ddarllen ac ymuno â Clwb Clonc Mattie Prichard yng Nghanolfan Cymry Llundain. Ymunais â Chymdeithas y Cymmrodorion a Chyngor Prifysgol Cymru hefyd, lle roedd rhaid defnyddio Cymraeg ffurfiol ar adegau.
Pan ddaeth Andy fy ngŵr a minnau i fyw yn llawn amser yn Aberystwyth, roeddwn yn mynd i ddosbarth nos “Gloywi Cymraeg” Felicity Roberts. Mae hi’n diwtor bendigedig, ond mae’n well ganddi gael myfyrwyr â nod i’w gyrraedd er mwyn gwella eu hiaith yn gyflymach. Bu farw Mam yn 89 oed yn 2016, ar ôl bod yn yr Orsedd ym Meifod am y tro olaf, felly roedd Felicity wedi fy annog i wneud cais am yr Orsedd trwy arholiad. Oherwydd y Pandemig roedd mwy o amser i baratoi wrth gwrs! Mae Andy wedi bod yn dysgu Cymraeg ers chwe blynedd nawr, felly mae e’n gallu gwerthfawrogi gŵyl yr Eisteddfod hefyd.
Ar wahân i’r seremoni urddo ar ddydd Gwener, rwy’n edrych ymlaen at grwydro’r Maes llawn stondinau eto. Rwyf wedi nodi gymaint o ddarlithoedd diddorol yn y Babell Len a’r Pebyll Cymdeithasau, ond ni fydd cyfle i fynd iddyn nhw i gyd. Mae aduniad y Brifysgol yn boblogaidd iawn bob blwyddyn, felly bydd siawns i gwrdd â hen ffrindiau yno unwaith eto. Rydym yn mwynhau’r gerddoriaeth ar y Maes, ym Mhabell Encore, Tŷ

Gwerin, a’r Pafiliwn, a the ym Mhabell yr Eglwysi! Eleni mae tocynnau gennym am y sioe Lloergan, a’r Gymanfa Ganu.

Aberystwyth yw fy hoff le yng Ngheredigion, ond rydym yn mwynhau mynd o gwmpas yn ein fan wersylla i ddarganfod lleoedd eraill. Mae’r fan yn ddigon bach i ymdopi yn hawdd gyda’r ffyrdd cul ein cefn gwlad.

Bydd Eisteddfod Tregaron/Ceredigion yn bendant yn gyffrous i mi, a gobeithio y bydd yn  llwyddiannus, yn groesawgar, a chyfle arbennig o dda i ddathlu ein hiaith a’n diwylliant unwaith eto.

Gwenda

## Cinio Bara a Chaws yng Nghapel y Morfa

Bydd Cinio Bara a Chaws, wyneb yn wyneb, yn cael ei gynnal yn y festri ar ddydd Llun, 12ed o Fedi, a hynny rhwng 12.00 ac 1.30 o'r gloch.  Dyma’r cinio a ohiriwyd ym mis Gorffennf oherwydd y lledaeniad mewn achosion Covid.
Croeso cynnes i bawb!
Diolch am eich cefnogaeth.

Dyma gyfle i holi a dod i adnabod Nia Mair, aelod newydd yn y Morfa.

**Dwedwch ychydig bach o'ch hanes.**

Fe'm ganwyd yng Nghaerfyrddin yng nghanol lluwchfeydd eira mawr '63 a'm magu ym mhentref glofaol Cross Hands ble roedd fy nhad yn weinidog gyda'r Hen Gorff yn ardal Y Mynydd Mawr. Gan fod Mam yn athrawes ym Mhontyberem, yno derbyniais fy addysg gynnar cyn llwyddo i fynychu Ysgol Ramadeg y Gwendraeth lle cwrddais gyntaf a'm gŵr Huw, er nad oeddem i ail gyfarfod tan bymtheg mlynedd yn ôl a phriodi yn 2012. Oddi yno es i Coleg Prifysgol Cymru Abertawe i astudio'r Gymraeg gan ennill ysgoloriaeth i astudio gradd meistr mewn Tafodieitheg a Chymdeithaseg Iaith. Testun fy nhraethawd estynedig oedd Erydiad Geirfaol ym Mhontyberem ac rwy'n dal i ymddiddori mewn tafodieithoedd ac yn aml caf fy hun yn clustfeinio ar sgyrsiau yn y Gymraeg, nid am fy mod yn fusneslyd ond am fod gennyf wir ddiddordeb mewn acenion ac amrywiadau geirfaol a gramadegol. Dilyn Mam fel athrawes oedd fy ngorchwyl gan ddechrau fy ngyfra addysgu yn Ysgol Gyfun y Graig Llanelli cyn symud i Aberystwyth i sefydlu'r Ganolfan Iaith yn 1990 ac ymgartrefu yn Llanfihangel Genau'r Glyn. Oddi yno ces fy mhenodi yn athrawes y Gymraeg ac yna'n Bennaeth y Gymraeg yn Ysgol Penglais lle treuliais saith mlynedd ar hugain hapus er gwaethaf cymaint o newidiadau a threialon byd addysg cyn ymddeol yn gynnar dair blynedd yn ôl. Nid yn un i fod yn segur es i weithio'n rhan amser yn M&S ond bellach rwy'n rheolwraig clinig ceiropracteg preifat yn y dre ac yn mwynhau darllen, coginio, mynychu cyngherddau roc, cerdded Ted y ci ac ysgrifennu ambell bwt o farddoniaeth yn fy amser hamdden.

**Pam dod yn aelod?**

Yn ddeunaw oed ces fy nerbyn gyntaf yn aelod o Eglwys Bresbyteraidd Cymru Bethel, Cross Hands cyn symud i Gapel Newydd Llanelli. Symudais i ardal Aberystwyth deuddeng mlynedd ar hugain yn ôl gan ymaelodi yng Nghapel y Garn, Bow Street. Ond, yn nhywyllwch cyfnod personol anodd iawn fe drois fy ngefn ar y capel ond ni chollais fy ffydd. Yn achlysurol mynychais Eglwys Sant Mihangel Genau'r Glyn ond rhaid i mi gyfaddef mai chwith oedd addoli yn y Saeaneg. Wedi marwolaeth Mam yn 2015 daeth Dad i fyw atom ac yn ystod y dair blynedd honno, treuliasom oriau yn trafod ffydd, diwinyddiaeth ac aelodaeth eglwysig. Wedi ei golli yntau a'i arweiniad doeth, cymedrol, tyfodd agendor na allwn mo'i lenwi tan, gyda threigl y misoedd, teimlais fy mod yn cael fy arwain yn ôl tuag at gapel.


Dechreuais fynychu oedfaon bore Capel y Morfa yn 2019 ond rhaid i mi gyfaddef fy mod yn bryderus er fy mod yn adnabod Eifion ac Alwen ac ambell aelod arall. Lleddfwyd fy mhryder o'r tro cyntaf un am i mi gael y fath groeso cynnes a buan teimlwn yn gartrefol gan fwynhau anffurfioldeb naturiol a diffuantrwydd yr oedfaon a'r ymdeimlad o ddiogelwch, o dawelwch meddwl, o berthyn i deulu'r eglwys. Fy nymuniad i osod gwreiddiau neu ail osod gwreiddiau, er mwyn cau'r cylch a pharodrwydd i ymrwymo eto oedd yn sail i'm penderfyniad i ddod yn aelod ond, yn anffodus fe'i gohiriwyd oherwydd gofid Cofid a'i gyfnodau clo. Ond ni theimlais yn ynysig yn ystod y cyfnodau hyn am fod y gwasanaethau rhithiol yn cynnal fy ymdeimlad o berthyn a diolch amdanynt. Felly pan ail agorodd y capel fis Chwefror eleni fe'm derbyniwyd yn gyflawn aelod a braf iawn o beth yw hynny.

**Beth am ddyfodol y Gristnogaeth yng Nghymru?**

Dyma gwestiwn sydd, ar un llaw, yn codi pryder ac eto ar y llaw arall yn un sy'n ennyn gobaith. Mae'r ystadegau presennol yn frawychus, 95% o blant Cymru heb unrhyw gysylltiad â chapel nac Ysgol Sul, ac mae 95% o oedolion Cymru yn gweld yr eglwys yn amherthnasol i'w bywydau ac y mae'r dirywiad i'r sefyllfa drist hon wedi bod yn digwydd am dros i hanner can mlynedd. Felly cyn sôn am Cofid mae cymdeithas wedi bod mewn pandemig ysbrydol, a'r her yw nid dim ond arafu'r dirywiad ymhellach ond adfer perthnasedd Cristnogaeth i'r dyfodol. Ond sut? Dyna'r cwestiwn ac nid oes ateb hawdd am fod, yn fy marn i, hualau agwedd a thraddodiad yn dal yn rhwystrau yng Nghymru.
Mae'n ffaith bod capeli wedi gorfod addasu eu ffyrdd o weithredu y tu allan i furiau eu hadeiladau yn sgil y pandemig, ac Oedfaon Zoom, Ysgol Sul Zoom a Chyfarfodydd Gweddi Zoom wedi dod yn gyfarwydd i ni gyd ac yn dderbyniol i'r mwyafrif. Rwy'n meddwl gyda gwên yn aml sut fyddai Dad wedi ymdopi a chynnal oedfa Zoom ond rwy'n sicr y byddai yntai wedi croesawu'r datblygiad cyffrous pan nad oedd hi'n bosib dod ynghyd. Rwy'n falch bod codi'r cyfyngiadau wedi ein galluogi i ddychwelyd i'r capel i addoli ond credaf hefyd fod yna le ochr yn ochr â hyn i barhau â gwasanaethau ar Zoom er mwyn bod yn gynhwysol, a hynny nid yn unig er lles ein haelodau sy'n gaeth i'w cartrefi neu'n sâl, ond mae'n ffordd wych o fod yn genhadol i bobl y tu allan i deulu'r capel. Yn y byd sydd ohoni mae'n hanfodol marchnata Cristnogaeth, rhoi llwyfan i'r Neges a'r gweithgareddau dyngarol sy'n ganolog i'n ffydd Gristnogol a chryfhau cydweithio cydenwadol er mwyn sicrhau dyfodol diogel i Gristnogaeth yn ein gwlad. Mae'r ffydd Gristnogol wedi goroesi dros ddwy fil o flynyddoedd gan wynebu amryw o heriau ond mae hi yma o hyd a thrwy ras ein Harglwydd Iesu Grist a chariad Duw a chymdeithas Yr Ysbryd Glan fe gawn ein harwain i ddiogelu ei dyfodol.

Diolch Nia. Y mis nesaf cawn gyfle i ddod i adnabod Dolig

# Lansio cyfrol Dr Brynley F Roberts ar faes yr Eisteddfod




Edward Lhwyd
c1660–1709
Naturalist, Antiquary, Philologist
Brynley F Roberts

Gwasg Prifysgol Cymru £16.99

Pabell Prifysgol Aberystwyth,
ddydd Mercher, 3 Awst, am 11.00
Croeso cynnes i bawb

**Gardd Cymdeithas y Beibl**

Cofiwch alw i brofi munud o dawelwch ac efallai cael eich ysbrydoli i greu gardd tebyg.

## Cyfarfod Gweddi a Choffi (bore Mawrth am 11 o'r gloch ar Zoom)

I gloi'r tymor cafwyd un cyfarfod pan wahoddwyd yr aelodau i rannu eu hoff flodyn neu blanhigyn. Roedd stori y tu ôl i bob un – nifer ohonynt yn ymddangos yn y Beibl, mewn emyn neu farddoniaeth ac eraill yn dwyn atgofion hyfryd a melys.
Cafwyd cyfle i weld rhai ohonynt ac i glywed y geiriau oedd yn gysyltiedig â'u henwau.

## Apêl Hadau Gobaith

Gwahoddwyd Eirwen James, Llanddewi Brefi i'r cyfarfod olaf i godi ymwybyddiaeth am Apêl Eglwys Bresbyteraidd Cymru eleni, sef Apêl Cymorth Cristnogol Hadau Gobaith. Mae Eirwen wedi ei phenodi gan yr Henaduriaeth i hyrwyddo'r apêl o fewn yr Henaduriaeth.

Yn wahanol i'r ddwy apêl ddiwethaf, ddeng a phum mlynedd yn ôl, sef Viva Guatemala a Corwynt Cariad y Ffilipinas a oedd yn canolbwyntio ar gefnogi un gwlad, bydd Hadau Gobaith yn cefnogi prosiectau yn Kenya ac yn America Ladin. Y nod yw rhoi urddas i'r bobl, creu cymdeithas fwy gwydn a sicrhau cyfiawnder amgylcheddol a chyfiawnder hinsawdd.
Mae'r ieuenctid eisoes yn llenwi'r blodyn haul gyda darnau arian fel eu cyfraniad hwy i Hadau Gobaith. Byddwn yn barod i dderbyn syniadau eraill am sut y gallwn fel eglwys gynorthwyo'r Apêl a mwynhau cymdeithas â'n gilydd ar yr un pryd.

# Ffydd a Phaned (prynhawn Gwener am 2 o'r gloch ar Zoom)

Yn dilyn y Pentecost thema'r hanner tymor olaf cyn y gwyliau oedd Yr Ysbryd Glân.

Cyflwynwyd y themau canlynol:

Yr Ysbryd Glân yn yr Hen Destament

Beth sydd gan yr Iesu I ddweud am yr Ysbryd Glân?

Unigolion dan ddylanwad yr Ysbryd Glân

Bywyd Unigol ac Eglwysig dan ddylanwad yr Ysbryd.

Un dyfyniad o'r uned olaf oedd: "Yr Eglwys yw ble mae'r Crist byw yn bodoli: nid man lle 'rydan ni'n cyfarfod"

Diolch i Eifion am baratoi'n drylwyr ar ein cyfer ac am gynnwys cerddoriaeth, ffilmiau fideo, darluniau, ac emynau ymhob uned oedd yn ychwanegu at y testun Beiblaidd a'r cefndir.


# Parchedig yr Adar
# Taith y Parchedig Harri Williams i fyd yr adar

Roedd taid (Harri Williams) yn ŵr hyddysg iawn ac yn ymddiddori mewn nifer o feysydd gwahanol – crefydd, cerddoriaeth, llenyddiaeth, llenydda a darlledu, yn ogystal â gwylio adar. Dechreuodd ei ddiddordeb mewn adar pan fu'n rhaid iddo dreulio amser maith yn sanatoriwm Talgarth, a

ffrwyth ei brofiad yno yw ei nofel “Ward 8”. Yn ystod ei fywyd cyhoeddodd lawer o nofelau, llyfrau crefyddol, llyfrau teithio a llyfrau ar gerddoriaeth yn ogystal ag erthyglau, a oedd yn adlewyrchu ei ddiddordebau eang.
Roedd yn ymddiddori mewn adar ble bynnag yr oedd, a blas ar hynny a gawn yn y gyfrol hon. Ysgrifau a ddaeth i’r fei flynyddoedd ar ôl ei farwolaeth ydynt. Ni welodd yr ysgrifau olau dydd yn ystod ei fywyd felly rydyn ni fel teulu yn falch iawn fod Cymdeithas Edward Llwyd wedi cymryd cymaint o ddiddordeb a phenderfynu eu cyhoeddi. Mae blychau testun a lluniau o Brosiect Llên Natur y Gymdeithas yn ategu’r ysgrifau.

Bydd y gyfrol yn cael ei lansio ym Mhabell Prifysgol Aberystwyth fel rhan o ddigwyddiad lansio mwy am 11 o’r gloch fore Mercher yr Eisteddfod.

Nest Gwilym



# Y GYMDEITHAS

Yn dilyn cyfarfod o Bwyllgor y Gymdeithas, y bwriad yw cynnal y cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn y festri, ond gyda'r posibilrwydd o gynnal rhai sesiynau ar zoom yn ystod y gaeaf neu os bydd yr amgylchiadau'n newid.
Mawr obeithiwn y bydd nifer dda ohonoch yn fodlon mentro allan er mwyn i ni gael mwynhau cwmni'n gilydd unwaith yn rhagor.
Byddwn yn dychwelyd i'r drefn o argraffu rhaglen y Gymdeithas a bydd y pris am y flwyddyn yn £5.00.
Cewch fwy o fanylion ddechrau Medi, ond bydd y cyfarfod cyntaf yn achlysur cymdeithasol yn bennaf gydag ychydig o adloniant a chyfle i sgwrsio dros baned.

Nos Lun, 26 Medi dewch i ail gynnau'r tân yng nghwmni y telynor dawnus, Robin Huw Bowen dros baned a sgwrs yn y Festri.

Lona (Cadeirydd) a Hywel (Ysgrifennydd)

# ENCIL SASIWN CHWIORYDD

Gwesty'r Llwyn Iorwg, Caerfyrddin

Dydd Iau Medi 22 (10.30 o'r gloch – 4 o'r gloch)

o dan arweiniad Yr Archddeacon Eileen Davies

Darperir te a choffi a chinio bwffe

Pris £23 (talu ar y diwrnod)

Enwau i Eleri os gwelwch yn dda erbyn



**Cyflwyno’n Hunain**

Crea awydd newydd ynom, O Dduw,
i’n cyflwyno’n hunain yn llawnach i ti mewn cariad,
ufudd-dod ac ymgysegriad.

Helpa ni i gysegru’n hamser,
i’w werthfawrogi’n fwy
a’i ddefnyddio i’r dibenion gorau.

Helpa ni i gysegru’n dwylo,
i ni fod yn gyfryngau
dy dosturi a’th drugaredd yn y byd.

Helpa ni i gysegru’n genau
i ddweud amdanat ti
ac i dystio i werthoedd a gwirioneddau’r Efengyl.

Helpa ni i gysegru’n calonnau
ac i ddwyn pob teimlad
o’n heiddo o dan dy arglwyddiaeth di,
ein Brenin a’n Duw.

Amen

Elfed ap Nefydd Roberts allan o Cymer fy munudau, Gol. Aled Davies a Trefor Lewis

# SULIAU AWST

Awst 7 – Morfa – Eifion – Yn y capel – Darllediad byw ar Zoom

Awst 14 - Seion – Y Parch Iwan Llewelyn Jones

Awst 21 – Bethel – Y Parch Peter Thomas

Awst 28 – Morfa - Y Parch Gwyn Elfyn Jones

# SULIAU MEDI

Medi 4 – Eifion – Yn y capel – Darllediad byw ar Zoom

Medi 11 – Y Parch Pryderi Llwyd Jones – Yn y capel – Darllediad byw ar Zoom.

Medi 18 – Eifion – Yn y capel – Darllediad byw ar Zoom

Medi 25 – Y Parch Robert Roberts – Yn y capel – Darllediad byw ar Zoom.

Yr holl oedfaon am 10 o'r gloch.

Golygyddion Awst / Medi – Eifion ac Alwen Roberts

Golygyddion mis Hydref – Gwerfyl a Menai
gwerfylpj@googelmail.com a menaillwyd@googlemail.com

Deunydd i law erbyn Medi'r 16eg